

POBL Y BEIBL

Eleias

Mae ymroddiad llwyr Eleias i Dduw yn ein herio'n fawr. Anfonwyd ef nid i gysuro ond i geryddu. Ac fe ddioddefodd unigrwydd mawr oherwydd hyn.

Cyflawnodd Duw sawl gwyrrth trwy weinidogaeth Eleias. Y mwyaf dramatig o bosibl oedd honno ar ben mynydd Carmel. Ond yn dilyn y wyrth fawr hon gwnaeth Jesebel ddial arno trwy fygwth ei fywyd. Digalonodd yntau'n llwyr gan ffoi i'r anialwch. Dymunodd farw yno, ond nid dyna ewyllys Duw ar ei gyfer.

Ar ôl buddugoliaeth fawr y mynydd profodd Eleias unigrwydd dwfn y glyn. Brwydrodd â theimladau llethol oedd yn gwasgu'n drwm arno. Er iddo feddwl mai ef yn unig oedd yn weddill o bobl yr Arglwydd, eto yr oedd gan Dduw 'weddill yn Israel y saith mil sydd heb blygu glin i Baal, na'i gusanu' (1 Bren. 19:18).

Mae Duw yn gweithio'n bennaf trwy'r cyfarwydd yn hytrach na'r anghyfarwydd. Mae wedi darparu moddion gras ar ein cyfer yn ddyddiol. Gofalwn rhag gorbwysleisio profiad crefyddol ar draul crefydd brofiadol.

Ynglŷn â gwaith gwaredigol Duw fe welwn fod teyrnas Israel erbyn hyn wedi'i rhwygo'n ddwy ran. Anufuddhaodd y brenhinoedd i Gyfraith Dduw gan arwain y bobl i eilunaddoliaeth. O ganlyniad i hyn anfonodd Duw broffwydi atynt i'w galw nhw'n ôl ato. Diwedda'r Hen Destament gyda chyfeiriad at y Gyfraith a roddwyd trwy law Moses (Malachi 4:4) ynghyd â'r addewid am ddyfodiad Eleias y proffwyd (Malachi 4:5). Cyfeiriad symbolaidd yw hwn at un fel Eleias a fyddai'n dod i gyhoeddi dyfodiad Crist. Ioan Fedyddiwr oedd hwnnw a ddaeth i baratoi calonnau'r bobl ar gyfer Iesu trwy edifeirwch (Luc 1:17). Yn y Gweddnewidiad gwelwyd Moses ac Eleias yn ymddangos gyda'r Iesu (Mathew 17:3-13), y naill yn cynrychioli'r Gyfraith a'r llall y Proffwydi, ac felly'n cymeradwyo Ei swyddogaeth Feseianaidd.

Cryfderau

- Proffwyd enwocaf Israel
- Cynrychiolodd Dduw yn erbyn Baal ar fynydd Carmel
- Ymddangosodd gyda Moses a Iesu yn y Gweddnewidiad

Gwendidau

- Profodd unigrwydd mawr wrth weithio ar ei ben ei hun
- Ffodd mewn ofn mawr oddi wrth fygythiad Jesebel i'w fywyd

Gwersi

- Gall buddugoliaeth fynd yn drech na dyn
- Nid ydym mor unig fel nad yw Duw wrth law
- Mae Duw yn sibwrdd wrthym yn amlach nag y mae'n gweiddi arnom

Ffeithiau


- **Lleoliad:** Gilead
- **Gwaith:** Proffwyd
- **Perthnasau:** Anhysbyr
- **Cyfoeswyr:** Ahab, Jesebel, Ahaseia, Obadeia, Hasael, Jehu ac Eliseus
- Mae'r enw *Eleias* yn golygu *Yahweh sydd Dduw*

Adnodau:

1 Bren. 18:16-40; Malachi 4:5-6; Mathew 11:14, 16:14, 17:3-13 & 27:47-9; Luc 4:25-6; Iago 5:17-18

gair yn ei le

Pos gan Rhian Williams



Ar Draws

- Tywysoges yn rhoi'r ynys mewn amgylchiadau llesg (8).
5. Ar y chwith y mae sawl ych am yn ail (4).
8. 'Torrodd holl argaeau'r nefoedd Oedd _____ hyd yn awr.' (W.R.) (2, 6).
9. Cywasgu amryfal ffrwyth (4).
11. 'Y mae enw da yn well na _____ gwerthfawr' (Pregethwr) (7).
13. Llifio'r derw ddiwedd Mehefin ac wele rywbeth i wneud stwnsh (5).
14. 'Ar lan lorddonen ddofn, Rwy'n _____' (E.E.) (4'1, 6).
18. Metel parod yn y boced (5).
19. Morio o'r afon i dymestl (7).
21. Y man i ddechrau lleddfu ein teimladau ysig (4).
22. Y Gair o'r we (5.3)
24. Crio wrth droi'r olwyn yn ddiddiwedd (4).
25. Ynghanol cadw y sbigoglys, cefais fy mrathu'n ddwfn (8).

I Lawr

1. Pryfed o afon a'i gwely yn Lloegr (6).
2. Yn codi yn y gyfres gyntaf (5).
3. 'Dwg amser, fel _____ cry', Ei blant i gyd i lawr' (cyf. W.O.E.) (10).
4. Dal fel hyn heb roi i fyny (3).
6. 'Craig _____ mewn tymhestloedd Craig a ddeil yng ngrym y lli' (S.J.G.) (7).
7. Bod yn ffyddlon yn myml un anwar (6).
10. Mae'n helbulus fod bustych Erin ar wasgar (10).
12. 'Boed _____ f'enaid tua'th dy, Fy Nuw, i weld dy wyneb cu' (cyf. D.J.) (5).
15. Llythyr sy'n ddryll electroneg (7).
16. Cymorth gan nifer fawr o ddwylo (6).
17. Rhoist heibio ddim i goginio (6).
20. '_____ dithau, f'enaid, fod, Yn y canol heb roi clod?' (cyf. H.E.L.) (5).
23. 'Oherwydd, i mi, Crist yw byw, ac _____ yw marw' (Phil.) (3).

Dylid anfon atebion i'r pos at 'Gair yn ei le', Steffan Job, Mudiad Efengylaidd Cymru, Swyddfa'r Gogledd, 31 Ffordd Caerbybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU, cyn **20 Mai**. Bydd yr ateb cywir cyntaf a agorir ar y dyddiad hwnnw yn cael tocyn llyfr gwerth £10.

Peter Davies